

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr etc.) (Cymru) (Dirymu) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr etc.) (Cymru) (Dirymu) 2022.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Mawrth 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2022](#) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolwydd Gweithredwyr\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2021](#) (y "Rheoliadau Atebolwydd Gweithredwyr") a [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.\) 2020](#) (y "Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") (gyda'i gilydd, y "Prif Reoliadau). Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu nifer o offerynnau statudol (OSau) sy'n diwygio'r Prif Reoliadau yn ogystal â'r fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dirymu ei rheoliadau o 04:00 ar 18 Mawrth sy'n golygu y bydd y ffurflen lleoli teithwyr yn dod i ben o'r adeg honno. Nid oes modd gweithredu rheoliadau Cymru heb y ffurflen lleoli teithwyr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu dirymu yn y gwledydd eraill felly ceir cysondeb ar draws y DU.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y modd y cyffyrddir o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol oherwydd caiff y cyfyngiadau presennol eu dileu; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau oherwydd bod trosglwyddiadau domestig Omicron yn rhagori'n sylweddol yn awr ar y rheini yn sgil achosion a fewnforiwyd felly nid yw'n gymesur mwyach i gynnal mesurau'r cyfyngiadau.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiybennu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, y Rheoliadau Atebolwydd Gweithredwyr a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, ac yn cael effaith o 04:00 ddydd Gwener 18 Mawrth. Mae nifer o OSau sy'n diwygio'r Prif Reoliadau, yn ogystal â'r fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, hefyd yn cael eu dirymu gan y Rheoliadau.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y dirymiadau hyn yn briodol o ystyried y newid yng nghyd-destun y peryglon i iechyd y cyhoedd o haint a fewnforiwyd posibl.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn weithredol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn weithredol.